Llwybr Datblygu'r Gymraeg

2023-24



Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

Darlith 7

Dydd Mawrth 7fed o Dachwedd 2023

Nod y sesiwn:

- Adolygu cynnwys Darlith 6 a thrafod strategaethau datblygu cywirdeb sillafu yn y dosbarth.
- Trafod beth ydy ystyr y term **trawsieithu**
- Edrych ar ofynion cwestiwn trawsieithu y Dystysgrif Sgiliau Iaith
- Defnyddio y sgil o drawsieithu yn y dosbarth
- Sut mae cyfoethogi ein sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg?

Adolygu – Geiriau Tebyg

Pa eiriau tebyg sy'n creu anhawster yn y dosbarth?

Pa strategaethau gellir eu defnyddio i ddatblygu cywirdeb sillafu yn y dosbarth?

Syniadau



https://www.youtube.com/watch?v=LqhcES1aLBs&t=307s

Enghreifftiau o restrau sillfau
http://www.ygmg.com/sillafu-cymraeg/
https://www.ygllwynderw.co.uk/sillafu-spelling/

Wordwall

l s i o c d e

https://wordwall.net/resource/5226367/athrawon-datblygur-gymraeg/dewch-i-sillafu



Apiau

Betsan a Roco yn y

Darlith 7:
Trawsieithu a chyfoethogi iaith

Beth ydy ystyr y term trawsieithu?



Trawsieithu ydy…

Sefyllfa lle rydym yn **derbyn gwybodaeth** mewn un iaith ac yn ei **defnyddio** yn y llall, e.e.:

e.e.Darllen yn Saesneg ond yna'n ysgrifennu yn Gymraeg

Gwrando yn Saesneg ond yna'n siarad yn Gymraeg

Mae'r term wedi cael ei gyfieithu i'r Saesneg 'translanguaging'

Bathwyd y term i ddisgrifio proses clywed gwybodaeth mewn un iaith a'I thrafod / ysgrifennu mewn iaith arall.

Trawsieithu

Testun ymchwil Cen Williams ym Mangor ym yr 1980au

Ymchwil yn edrych ar strategaethau i helpu dysgwyr i ddefnyddio dwy iaith mewn gwers

Cofiwch y gwahaniaeth rhwng...

CYFIEITHU

Rhaid trosglwyddo'r testun yn ei gyfanrwydd o un iaith i'r llall.

TRAWSIEITHU

Rhaid trosglwyddo ystyr y darn yn gyffredinol i iaith arall gan ddefnyddio eich geiriau eich hun.

Meddyliwch am enghreifftiau pan rydyn ni'n trawsieithu...

padlet

Rhowch eich syniadau ar y Padlet

https://padlet.com/bethangriffiths/trawsieithu-casglu-syniadau-r5w54qtzt41cd7gp

Wrth **drawsieithu** yn ysgrifenedig:

Rydym yn

- chwilio am y **prif syniadau** mewn darn (e.e. Saesneg)

- cyfleu'r **prif syniadau** hyn yn yr iaith arall (e.e. Cymraeg) gan gadw'r iaith mor syml a dealladwy ag sy'n bosibl

Gwaith Pâr Ymarfer Trawsieithu

School term dates changes in Wales to be considered

24 November 2021

GETTY IMAGES

https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-59408148

1. Partner A i ddarllen yr erthgyl yn Saesneg ac yna trosglwyddo'r prif bwyntiau yn y Gymraeg ar lafar i bartner B.
2. Ar ôl gorffen gwrando ar y prif bwyntiau bydd angen i bartner B eu hysgrifennu nhw ar ddarn o bapur (yn Gymraeg).

Yna ewch ati fel pâr i ail ddarllen yr erthygl Saesneg.

Oedd y prif bwyntiau wedi cael eu cofnodi neu a oedd rhywbeth pwysig ar goll?

TRAWSIEITHU - Tasg 2 yr asesiad ysgrifenedig

(Mae'r dasg hon yn werth 40% o'r marciau)

Mae'r darn isod yn drawsysgrifiad o araith gan Is-Ganghellor mewn Prifysgol a draddodwyd yn ystod y seremoni raddio i fyfyrwyr yn ddiweddar. Ysgrifennwch adrodddiad byr yn Gymraeg ar gyfer cylchgrawn y coleg, yn esbonio'r cyd-destun ac yn crynhoi'r hyn a ddywedwyd.

Rhaid i chi gynnwys y pwyntiau allweddol i gyd yn eich adroddiad.

Ysgrifennwch o leiaf **120** o eiriau, a pheidiwch ag ysgrifennu mwy na **140** o eiriau. **Nodwch nifer y geiriau ar ddiwedd eich erthygl.**

Rhaid cofio ysgrifennu'n gryno felly!

Cyngor ar gyfer yr asesiad ysgrifenedig TSI

- **DARLLEN** darn yn sydyn ac yn arwynebol er mwyn cael syniad o'r cynnwys.
- Nodi'r pwyntiau yr ydych wedi sylwi arnynt
- Darllen y darn yn fanwl
- Beth yw prif bwynt y darn?
- Beth yw'r is-bwyntiau?
- Gwnewch bwyntiau bwled neu fap meddwl
- Ceisiwch wneud nodiadau yn Gymraeg heb ddibynnu ar y darn.

Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg

Crynhowch gynnwys y darn i draean y gwreiddiol gan gofio

- Pediwch â chyfieithu air am air. Defnyddiwch eich geiriau eich hun
- Peidio ychwanegu eich barn / eich syniadau eich hun
- Dim enghreifftiau, oni bai eu bod yn hanfodol
- Osgoi ailadrodd
- Defnyddio eich geiriau eich hun
- Cadw'r brawddegau yn fyr ac yn gryno.

Ar ôl i chi orffen...
Cofiwch wirio eich gwaith (e.e. Sillafu, cenedl enwau, treigladau ayyb)
Defnyddiwch Cysill i'ch helpu i wirio.

Enghraifft (Papur 1)

FORGING STRONGER LINKS

At a recent conference in Gregynog, mid Wales, delegates from universities in Wales and South America convened to discuss ways of collaborating, in order to forge stronger links between Wales and Patagonia. During the nineteenth century, many Welsh people risked their lives in their quest to seek fairer and better living conditions by sailing thousands of miles in small sailing ships to create a new colony or gwladfa. The conference was funded by the Welsh Government.

A few of the representatives who formed the South American contingent at the conference were descendants of the first emigrants. All the speakers who lectured at the conference are presently studying – or intending to study – various aspects of the relationship between the two countries. A number of speakers gave talks on these topics. Among the historical themes discussed at the conference were the roles of the first pioneering leaders, the relationship between the emigrants and the native Patagonian population, and the way they adapted their farming methods to suit the climate and terrain in south America.

Contemporary issues were also discussed by delegates. Recent technological advancements and improved modes of communication and travel enable far more people and ideas to criss-cross the Atlantic. Youth organisations arrange visits annually; travel companies have been established to arrange recreational, educational and cultural visits for older people. Language tutors and teachers spend longer periods in Patagonia in order to teach the Welsh language to children and adults who aspire to master the language of their forefathers. There are many other students and children learning the language who have no historical links at all with Wales and the Welsh language. In the past, many students from Patagonia have also attended summer courses and college courses in Wales in order to improve their linguistic skills. Ways of maintaining and developing these connections were discussed in workshops.

Following the conference, the organisers will publish a trilingual report in Welsh, Spanish and English, outlining the main recommendations. It will be presented to the governments of both countries and disseminated to universities in Wales and Patagonia. One-to-one partnerships between universities were also formed during their period in mid Wales. This arrangement should form the basis of further collaboration, specifically to promote scientific and technological matters, in addition to the historical and cultural liaisons that already exist.

Meini Prawf

Addasu testun ysgrifenedig Saesneg i'r Gymraeg at ddiben penodol.

Rhaid i'r ymgeisydd ddarllen testun ysgrifenedig Saesneg a'i addasu i'r Gymraeg at ddiben penodol, e.e. **ysgrifennu crynodeb o destun Saesneg ar gyfer cynulleidfa benodol.**

Asesir gallu'r ymgeisydd i **ysgrifennu'n gywir**, gan ddefnyddio **ystod o gystrawennau** a geirfa, ac i lunio testun terfynol sy'n briodol i'r diben a ddisgrifir yn y dasg. Yn ogystal, bydd nifer o bwyntiau allweddol yn y testun gwreiddiol, ac asesir gallu'r ymgeisydd i gynnwys y pwyntiau priodol yn y trawsieithiad.

Cynllun marcio – Trawsieithu

Y2.1	**Cywirdeb**	10 marc
	9-10	ysgrifennu'n gywir iawn, ychydig iawn o fân wallau yn unig.
	7-8	ysgrifennu'n gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw.
	5-6	ysgrifennu'n gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth.
	3-4	ysgrifennu'n eithaf gwallus, a'r camgymeriadau'n amharu ar ddealltwriaeth y darllenydd.
	0-2	y testun yn cynnwys nifer o gamgymeriadau elfennol.

Y2.2	**Ystod**	10 marc
	9-10	defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa, sy'n gwbl briodol i'r dasg.
	7-8	dcfnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg.
	5-6	defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n addas i'r dasg, er bod rhai bylchau amlwg.
	3-4	defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a phatrymau a'r diffygion yn peri peth anhawster wrth ysgrifennu'r testun.
	0-2	defnyddio ystod o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflawni'r dasg yn foddhaol.

Y2.3	**Addasrwydd y testun**	10 marc
	9-10	y testun terfynol yn gwbl briodol i'r dasg a osodwyd, e.e. ffurf, hyd, cywair neu'r gynulleidfa y bwriadwyd y testun ar ei chyfer.
	7-8	y testun terfynol yn addas i'r dasg a osodwyd, er bod un neu ddwy agwedd (e.e. ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa) yn llai addas.
	5-6	y testun terfynol yn foddhaol, er bod rhai agweddau nad ydynt yn briodol, e.e. ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa.
	3-4	y testun terfynol yn anaddas o ran y dasg a osodwyd, neu'r ymgeisydd heb gyflawni'r gofynion o ran ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa.
	0-2	y testun terfynol yn gwbl anaddas i'r dasg.

Y2.4	**Pwyntiau allweddol** 10 marc Mae 5 o bwyntiau allweddol y mae angen i'r ymgeisydd eu cynnwys yn y trawsieithiad, a fydd yn dangos eu bod wedi deall y testun gwreiddiol, Saesneg. Rhoddir 2 farc am bob pwynt allweddol a gynhwysir yn gyflawn ac yn briodol; Rhoddir 1 marc am bob pwynt allweddol a gynhwysir yn rhannol neu'n lled briodol.

Tasg

Darllenwch yr araith. Dewiswch 5 pwynt allweddol.

Trawsieithu yn y dosbarth

Y Cwricwlwm

Trawsieithu	Defnyddio gwybodaeth mewn un iaith er mwyn gweithio gyda'r wybodaeth honno mewn iaith arall, e.e. gwrando ar wybodaeth yn Gymraeg ac yn siarad/ysgrifennu amdani yn Saesneg neu ddarllen gwybodaeth yn Saesneg ac yn siarad/ysgrifennu amdani yn Gymraeg. (Gall y sgil hwn gael ei gymhwyso i ieithoedd rhyngwladol ac ieithoedd y cartref/gymuned lle bo hynny'n berthnasol.)

Cam cynnydd 2

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru

Rwy'n dechrau defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn un iaith a'i mynegi yn fy ngeiriau fy hun mewn iaith arall. (tud. 138)

https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf

Sut gellir defnyddio'r sgil o drawsieithu i hybu sgiliau ieithyddol yn y dosbarth?

Sut mae cyfoethogi sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg?

Rhaid peidio â chyfieithu idiomau Saesneg! Mae idiomau unigryw gyda ni yn yr iaith Gymraeg.

What are idioms and why are they important to achieve fluency?

https://www.digitalpolyglot.com/idioms-important-achieve-fluency/

Llyfr Defnyddiol

Awdur:Alun Rhys Cownie
ISBN: 9780708316566
Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2012
Cyhoeddwr: Gwasg Prifysgol Cymru
Golygwyd gan Wyn G. Roberts



Cyfieithu idiomau yn llythrennol…

Mae gan bob iaith ei hidiomau neu ei hymadroddion idiomatig. Dyna'r pethau sy'n cyfrannu at naturioldeb yr iaith a'n rhuglder.

Yn eu hanfod, dydyn nhw ddim yn gallu cael eu cyfieithu'n llythrennol o un iaith i iaith arall.

Enghreifftiau:

rhai amserau ☹	weithiau; ambell waith ☺
yn cymryd drosodd ☹	yn fwy amlwg ☺
cymryd rhan ☹	mynd ar / gwneud / mynychu ☺
i gyd o'r gorau ☹	cofion gorau; yr eiddoch yn gywir; yn gywir ☺
fel canlyniad ☹	o ganlyniad ☺

https://wordwall.net/resource/3199612

Wordwall



Tasg: Rhowch yr idiom cywir yn y bwlch.

1. Roedd llawysgrifen yr awdur _____a felly roedd yn anodd iawn i ddarllen y gerdd.

2. Bu Siwan wrthi _____yn adolygu at yr arholiadau.

3. Gan ei fod yn hwyr i'r apwyntiad, gyrrodd _____ar hyd y drafforddd.

4. Mae'r rheolau gramadeg _____ar ôl iddo adolygu cyn gymaint.

fel traed brain hen law ar fel lladd nadroedd

fel cath i gythral ar flaenau'i fysedd ar bigau'r drain

Tasg: Rhowch yr idiom cywir yn y bwlch.

1. Roedd Alaw yn _____ddoe ar ôl i Wil fod yn galw enwau arni.

2. Roedd Elin _____isio gwybod y gyfrinach.

3. Roedd Sion yn _____i baratoi yn drylwyr at yr arholiad.

4. Ga i _____i olchi'r llestri os gwelwch yn dda?

help llaw	hen law ar	bron â thorri ei fol
teimlo i'r byw	gwneud ei orau glas	ar bigau'r drain

Rhai Idiomau Defnyddiol

https://wordwall.net/resource/7569547

Idiomau mewn ‘emojis’ 🙂

1. 😀 👂 👂
2. 😈 🧀
3. 👣 👣 🐷
4. 🕯️ 👁️
5. 📅 17 👑
6. 🌊 🏔️
7. 🗡️ ⬆️ 🏠
8. ⬆️ 💖
9. 🔨 🔩 🤕
10. 🔄 🌞 🏔️
11. 💨 👊
12. 👊 👵🏻 🧹

Cwis Mentrau Iaith Cymru

Idiomau

1. 😀 👂 👂 Yn wên o glust i glust
2. 😈 🧀 Y drwg yn y caws
3. 👣 👣 🐷 Traed moch
4. 🕯️ 👁️ Cannwyll fy llygad
5. 📅 17 👑 Diwrnod i'r brenin
6. 🌊 ⛰️ Gwneud môr a mynydd
7. 🗡️ ⬆️ 🏠 Rhoi'r ffidl yn y to
8. ⬆️ 💖 Codi calon
9. 🔨 🔩 🤕 Taro'r hoelen ar ei phen
10. 🔄 🌞 ⛰️ Daw eto haul ar fryn
11. 💨 👊 Gwynt yn ei ddwrn
12. 👊 👵 🧹 Bwrw hen wragedd a ffyn







Cân Idiomau (ap am ddim ar hyn o bryd!)

Eich tro chi…

Yn eich grwpiau – cynlluniwch un gweithgredd i ddatblygu sgiliau ‘trawsieithu’ yn y dosbarth.